

Y Weithdrefn Gwyno

Ein dymuniad yw y byddwch yn cael ymweliad cynhyrchiol a phleserus ag adeilad a gwefan yr Archifau Gwladol. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu i chi wasanaeth o'r safon uchaf posibl o fewn ein gallu. Os bydd pethau yn mynd o chwith, hoffem eich helpu'n syth bin, felly gofynnwn i chi ddweud wrthym pan fydd problem yn codi.

Mae ein [Polisi tynnu o'r wefan](#) yn nodi'r amgylchiadau lle y bydd yr Archifau Gwladol yn tynnu deunyddiau oddi ar eu gwefannau.

Sut i wneud cwyn

Os ydych am gwyno am unrhyw un o'n gwasanaethau, siaradwch ag aelod o'r staff a fydd yn ceisio datrys pethau i chi'n uniongyrchol, neu'n eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all helpu.

Neu, gallwch gwblhau ein [Ffurflen Rhoi'ch Barn](#) neu ein e-bostio ar yourviews@nationalarchives.gsi.gov.uk, neu gallwch ein ffonio ar +44 (0) 20 8392 5363 a siarad â'n Rheolwr Cwynion.

Gallwch hefyd ysgrifennu at ein Rheolwr Cwynion yn y cyfeiriad isod:

The Quality Manager
The National Archives
Kew, Richmond
Surrey TW9 4DU

Mae'r polisi isod yn darparu manylion llawn ynglŷn â sut rydym yn ymdrin â sylwadau a chwynion.

[Polisi ymdrin â sylwadau a chwynion](#) (PDF, 0.23MB)

Adolygiad allanol

Os, ar ôl dilyn holl gamau'r system gwyno fewnol, rydych yn dal yn anfodlon, cewch wneud cais i'r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA), Mrs Jodi Berg. Mae'r ACA yn hollol annibynnol ar yr Archifau Gwladol a bydd yn sicrhau tegwch a didueddrwydd wrth ymchwilio i'ch cwyn.

Dylid sylwi na chaiff yr ACA adolygu achosion sy'n ymwneud â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

The Independent Complaints Reviewer
5th Floor
1 Victoria Street

Llundain, SW1H 0ET

Rhif ffôn: +44 (0) 20 7930 0749

Rhif ffacs: +44 (0) 20 7321 0406

E-bost: enquiries@icrev.org.uk
icrev.org.uk/

Os yw'ch cwyn am gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac rydych yn dal yn anfodlon ar ôl dilyn holl gamau'r system gwyno fewnol, dylech gysylltu â:

The Information Commissioner

Wycliff House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire, SK9 5AF

Rhif ffôn: +44 (0)1625 545745

ico.org.uk

Adolygiad gan yr Ombwdsmon

Os byddwch yn dal yn anfodlon â chanlyniad adolygiad yr ACA, cewch ofyn i'ch Aelod Seneddol roi'ch cwyn gerbron yr Ombwdsmon Seneddol sydd yn un o swyddogion Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Ombwdsmon yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn oddi wrth:

The Parliamentary and Health Service Ombudsman

Millbank Tower

Millbank

Llundain SW1P 4QP

Rhif ffôn: +44 (0)845 015 4033

Rhif ffacs: +44 (0)20 7217 4000

E-bost: phso.enquiries@ombudsman.org.uk

ombudsman.org.uk

Nid yw'r ddarpariaeth o broses annibynnol i adolygu cwynion yn effeithio ar eich hawl i geisio cael yr Ombwdsmon i adolygu'ch cwyn ar unrhyw adeg.

Gwybodaeth bellach

Asiantaeth Weithredol yw'r Archifau Gwladol, sy'n gweithredu fel adran ar wahân o dan y Mae'r Adran dros Ddigidol, Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Y Prif Weithredwr yw:

Jeff James

The National Archives

Kew, Richmond

Surrey, TW9 4DU

Y gweinidog sy'n gyfrifol am yr Archifau Gwladol yw:

Parliamentary Under Secretary of State for Digital, Culture, Media & Sport

100 Parliament Street

Llundain, SW1A 2BQ